ATODLEN 3

# RHAN 2

## Hysbysiadau i'r awdurdod lleoli mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ac i riant neu ofalwr mewn perthynas ag unigolion eraill

**33.** Unrhyw achos o gam-drin neu unrhyw honiad o gam-drin mewn perthynas â'r unigolyn sy'n ymwneud â'r darparwr neu aelod o staff.

**34.** Bod yr unigolyn yn cael damwain ddifrifol neu anaf difrifol.

**35.** Unrhyw niwed pwyso categori 3 neu 4 neu niwed pwyso nad oes modd ei osod ar unrhyw gam a gaiff yr unigolyn.

**36.** Achos o unrhyw glefyd heintus.

**37.** Unrhyw ddigwyddiad a gaiff ei adrodd i'r heddlu sy'n ymwneud â'r unigolyn.

**38.** Marwolaeth yr unigolyn tra bo'n cael ei letya gan y gwasanaeth, a'r amgylchiadau.

**39.** Honiad bod yr unigolyn wedi cyflawni trosedd ddifrifol tra bo'n cael ei letya gan y gwasanaeth.

**40.** Unrhyw achos pan fo'r unigolyn yn mynd ar goll neu'n absennol heb esboniad tra bo'n cael ei letya yn y gwasanaeth.

**41.** Unrhyw gofnod o reolaeth neu ataliaeth mewn perthynas â'r unigolyn sy'n ofynnol o dan reoliad 51 a pharagraff 5(g) o Atodlen 2.

**42.** Cychwyn a chanlyniad dilynol unrhyw ymholiad amddiffyn plant neu oedolion sy'n ymwneud â'r unigolyn mewn perthynas â digwyddiadau a ddigwyddodd tra bo'r unigolyn wedi ei letya yn y gwasanaeth.

**43.** Unrhyw achos o gamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol ar yr unigolyn neu unrhyw amheuaeth o gamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol ar yr unigolyn.